**PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o bell, 7 Rhagfyr, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, T.H. Jarvie, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol); B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd), G. John ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr N.C. Thomas (Is-Gadeirydd) ac O. Griffiths.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. STRATEGAETH EIRIOLAETH CAERDYDD A'R FRO (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Dylid nodi cyfeirnod, adroddiad ac atodiad Strategaeth Caerdydd a'r Fr oar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth Oedolion 2021-2026.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r Strategaeth berthnasol.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Dylid nodi'r Adroddiad Canol Tymor Diogelu Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

EITEM AGENDA 6. CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG DRAFFT 2022-23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD – Dylid nodi cyfeirnod, adroddiad ac atodiad y Cynllun Cyflenwi Blynyddol 2022-2023 Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL, 2021 I 30 MEDI, 2021 A'R GYLLIDEB DDIWYGIEDIG AR GYFER 2021/22 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

(2) Nodi'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Rheswm dros yr amgymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad, roedd yn gysylltiedig â'r canlyniad refeniw a ragwelir yn ogystal â'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

EITEM AGENDA 8. CYNIGION CYCHWYNNOL CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi Cynigion Cychwynnol y Gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23.

(2) Y dylid trosglwyddo argymhelliad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol y dylai'r holl Bwysau Cost, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, gael eu cefnogi'n ariannol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, fod yn ymwybodol o farn y Pwyllgor bod yr holl geisiadau

pwysau cost, fel y'u nodir yn yr adroddiad, yr un mor bwysig ac o'r pwys mwyaf ac felly rhaid eu cefnogi hyd eithaf gallu'r Cyngor wrth symud ymlaen.

EITEM AGENDA 9. CYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2022/23 I 2026/27 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r Cynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol ar gyfer 2022/23 I 2026/27.

(2) Y dylid trosglwyddo argymhelliad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol y dylai'r holl Geisiadau Cyfalaf ar gyfer 2022/23, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad, gael eu cefnogi'n ariannol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, fod yn ymwybodol o farn y Pwyllgor bod yr holl Geisiadau Cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23, fel y'u nodir yn yr adroddiad (yn ogystal â'r cynlluniau sefydledig yn Atodiad 1 yr adroddiad), yr un mor bwysig ac o'r pwys mwyaf ac felly rhaid eu cefnogi hyd eithaf gallu'r Cyngor wrth symud ymlaen.

EITEM AGENDA 10. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2021/22 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y maent yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Y dylid nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Cyngor a nodir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, i sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion o ran perfformiad a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r Cyngor wneud y mwyaf o'i gyfraniad at y gwaith o gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

(3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad ynghylch y materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.